



**Partneriaeth
Tyfu Canolbarth Cymru /
Growing Mid Wales
Partnership**

Dydd Gwener 12 Mai 2023

Friday 12 May 2023

1.30 pm

Cyfarfod Rhithiol

Virtual Meeting

Yn bresennol

Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (**Cadeirydd**) (**Cyngh. BD**)

Andrew Cornish, Coleg Ceredigion (**AC**)

Angharad Massow, Tyfu Canolbarth Cymru (**AM**)

Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion (**AE**)

Ann Weedy (**AW**)

Barry Rees, Cyngor Sir Ceredigion (**BR**)

Brett John, Llywodraeth y DU (**BJ**)

Cathy Martin, Tyfu Canolbarth Cymru (**CMn**)

Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru (**CS**)

Claire Miles, Tyfu Canolbarth Cymru (**CMs**)

Y Cynghorydd Clive Davies, Cyngor Sir Ceredigion (**Cyngh. CD**)

Y Cynghorydd Jackie Charlton, Cyngor Sir Powys (**JC**)

Y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys (**Cyngh. JG-W**)

Y Cynghorydd Keith Henson, Cyngor Sir Ceredigion (**Cyngh. KH**)

David Owen, Tyfu Canolbarth Cymru (**DO**)

Gavin Bowen, Cyfoeth Naturiol Cymru (**GB**)

Hazel Lloyd Lubran, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (**HLL**)

Louise Grove-White, Cyngor Sir Ceredigion (**LGW**)

Nash, Llywodraeth y DU (N)

Nathan Richards, Croeso Cymru (**NR**)

Nia Williams, Cyd-bwyllgor Iechyd Canolbarth Cymru (**NiaW**)

Nick Venti, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (**NV**)

Nicola Williams, Cyngor Sir Powys (**NW**)

Nigel Brinn, Cyngor Sir Powys (**NB**)

Patricia Jones, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (**PJ**)

Peter James, Llywodraeth Cymru (**PJ**)

Rebecca Jeremy, Cyngor Sir Powys (**RJ**)

Simon Jones, Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (**SJ**)

Stacey-Jayne Oakham, Tyfu Canolbarth Cymru (**SJO**)

Val Hawkins, Twristiaeth Canolbarth Cymru (**VH**)

Vanessa Naughton, Llywodraeth Cymru (**VN**)

Darparwyd y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod hwn gan Sian Jones, Cyfiaith.

Estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, groeso i bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd bobl i'r sawl a oedd yn bresennol.

1.	<p>Ymddiheuriadau am absenoldeb</p> <p>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol: - Ann Watkin, Llywodraeth Cymru (AW) Arwyn Davies, Cyngor Sir Ceredigion (AD) Caroline Turner, Cyngor Sir Powys (CT) Y Cynghorydd Catrin MS Davies (CMSD) Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Cyngor Gwynedd (Cyngh. DM) Y Cynghorydd David Selby, Cyngor Sir Powys (DS) Hywel Davies, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (HD) Mark Dacey, Grŵp Colegau NPTC (MD) Mark Williams, Llywodraeth Cymru – Adfywio (MW) Peter Skitt, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Y GIG (PS) Peter Howells, NFU Cymru (PH) Rhian Haywood, ArloesiAber (RH) Rhodri Morgan, Prifysgol Aberystwyth (RM) Rhys Morris, Llywodraeth Cymru (RMO) Russell Hughes-Pickering, Cyngor Sir Ceredigion (RHP)</p>
2.	<p>Cofnodion</p> <p>Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2023 yn gofnod cywir. Cynigiwyd gan Clive Davies ac eiliwyd gan Jackie Charlton.</p>
3.	<p>Trosglwyddo'r Gadeiryddiaeth o'r Cynghorydd James Gibson-Watt i'r Cynghorydd Bryan Davies</p> <p>Trosglwyddodd y Cyngh. JG-W swydd y Cadeirydd i'r Cyngh. BD.</p> <p>Diolchodd y Cyngh. BD i'r Cyngh. JG-W am y gwaith y mae wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fel Cadeirydd Bwrdd y Bartneriaeth. Nododd y Cyngh. BD bwysigrwydd y cyfarfodydd hyn sy'n gyfle i gael adborth pwysig gan yr holl sefydliadau a gaiff eu cynrychioli yn y Bartneriaeth, felly anogodd bobl i fynegi eu safbwyntiau.</p>
4.	<p>Diweddariad ynghylch gweithgarwch sy'n berthnasol i'r canolbarth</p> <p>4.1. Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (Global Centre of Rail Excellence (GCRE)) – Simon Jones, Prif Weithredwr</p> <p>Croesawyd Simon Jones (SJ), Prif Weithredwr GCRE Limited, i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad llafar a oedd yn tynnu sylw at y pwyntiau allweddol isod.</p> <p>Sefydlwyd GCRE Limited gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ac yna gweithredu'r prosiect Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae GCRE wedi datblygu cynllun busnes manwl, wedi gosod sawl contract ac wedi dechrau cyfnod nesaf y cylch cyllido.</p> <p>Yn ystod haf 2021 llwyddodd y cwmni i gael caniatâd cynllunio amlinellol, ac mae wedi defnyddio hwnnw i ddatblygu'r prosiect Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd. Mae'r cwmni wedi bod yn datblygu manylion y prosiect hwn – y gwaith dylunio ar gyfer y safleoedd a'r rheilffordd. Datblygwyd prif gynllun ac iddo elfen ynni bwysig er mwyn ymateb i'r holl drydan y mae trenau'n ei ddefnyddio. Mae llawer iawn o waith ar y gweill ar y safle a'r swyddfeydd, ac mae gwaith yn dechrau cael ei gyflawni ar y safleoedd (e.e. deunydd a rigiau drilio). Maent wrthi'n archwilio tir, yn clirio tir ac yn dymchwel hen gyfleusterau a oedd yn gysylltiedig â'r lofa cyn hynny. Nod GCRE yw cwblhau'r gwaith o adeiladu'r rheilffordd erbyn diwedd 2025 ac yna agor elfennau'r rheilffordd yn 2026 – mae'r oedi wedi digwydd o ganlyniad i argaeledd cysylltiad â'r Grid Cenedlaethol, ac mae'r cwmni yn monitro hynny'n ofalus.</p> <p>Dros oddeutu'r mis diwethaf, mae GCRE wedi cyhoeddi ar ei wefan/cyfrif LinkedIn fanylion y cytundebau y mae wedi'u trefnu gyda Hitachi, Trafnidiaeth Cymru, Talgo,</p>

Thales GTS ac amryw sefydliadau eraill i ddenu darpar fuddsoddwyr/cwsmeriaid. Mae'n gweithio yn galed iawn i roi'r cytundebau hynny i gyd ar waith, gan mai un o brif flaenoriaethau'r cwmni yw cael cyllid gan y sector preifat er mwyn sicrhau bod y prosiect Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (sy'n werth £400 miliwn) yn cael ei wireddu. Mae wedi cael gwerth £70 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru/Llywodraeth y DU, sydd wedi'i glustnodi i adeiladu'r prosiect hwn. Fodd bynnag, mae angen cael gweddill y cyllid gan y sector preifat ac mae GCRE yn ymdrechu i wneud hynny. Ceir risg na fydd yr ymdrechion hynny'n llwyddiannus, er bod y diwydiant yn gefnogol iawn i'r cwmni. Ni fydd cwmnïau'r sector preifat yn buddsoddi yn y prosiect hwn oni bai eu bod yn teimlo bod modd iddynt wneud elw ar eu buddsoddiad, felly bydd angen ennyn hyder y sector preifat.

I greu buddsoddiad, mae'r cwmni yn defnyddio'r broses caffael cyhoeddus i arwerthu'r cyllid cyhoeddus sydd eisoes wedi'i fuddsoddi yn y prosiect. Ym mis Ionawr, cynhaliodd ymarfer cyn-gymhwysio a arweiniodd at greu rhestr fer o sawl sefydliad cryf/credadwy sydd bellach wedi'u gwahodd i gyflwyno tendr. Mae'n defnyddio proses deialog gystadleuol, felly bydd yn cael cyfres o sgysiau strwythuredig â'r cynigwyr dros y misoedd sydd i ddod. Bydd y cwmni'n ceisio gweithio gyda'r cynigwyr i fynd i'r afael â chynifer o'r risgiau ag y maent yn gallu eu nodi, lle bo'n bosibl, gan sicrhau hefyd bod y broses yn deg i'r cynigwyr eraill. Bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion terfynol yn ystod mis Medi. Bydd y sefydliad sy'n cyflwyno'r cynnig buddugol yn dod yn berchennog ar gwmni GCRE ac yn cymryd ei asedau, ei rwymedigaethau a'i ymrwymadau i adeiladu cyfleuster rheilffordd y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd.

Mae'r cwmni wedi bod yn ystyried adeiladu parc technoleg ar y safle. Fe'i hysbrydolwyd gan y safleoedd profi sydd gan y sector modurol o amgylch y DU (e.e. Silverstone, Millbrook yn Swydd Buckingham). Mae'r diwydiant modurol yn defnyddio'r safleoedd hyn i roi prawf ar gynnyrch newydd a'i gymeradwyo, ac ar yr un pryd mae'r safleoedd yn cynnig cyfleusterau er mwyn i'w cleientiaid gael canolfan yno. Mae gan weithgynhyrchwyr modurol haen un (Ford, General Motors, Goodyear) ganolfannau parhaol ar y safleoedd profi hyn oherwydd bod ganddynt beirianwyr sydd am ddefnyddio'r cyfleusterau profi. Byddai GCRE yn hoffi creu cyfleuster cyfatebol i'r diwydiant rheilffyrdd, fel y gall cwmnïau rheilffyrdd mawr ddod a chreu canolfan i'w hunain yn y canolbarth. Ond ni fydd neb yn dod i greu canolfan i'w hunain yno nes y bydd y cyfleuster profi rheilffyrdd wedi'i adeiladu.

Bydd angen bod pobl ar gael i wasanaethu busnesau yn y parc technoleg a'r adeiladau hyn, felly mae'r cwmni wedi bod yn hybu'r agenda o ran sgiliau. Mae wedi penodi un o Gyfarwyddwyr Gweithredol GCRE i arwain ym maes sgiliau ac arloesi, a fydd yn dechrau ar ei waith ymhenni mis. Bydd yn helpu i greu cyflenwad o sgiliau y bydd tenantiaid y dyfodol yn gallu manteisio arnynt. Bwriedir cysylltu â phrifysgolion, colegau addysg bellach ac ysgolion lleol er mwyn ysbrydoli pobl ifanc i feddwl am yrfaedd sy'n cyd-fynd â'r maes gwaith hwn – bydd angen llenwi pob math o rolau er mwyn sicrhau bod y safle'n llwyddiannus (nid dim ond swyddi trwm ym maes peirianeg fecanyddol). Mae'n bosibl y bydd angen tua 200-250 o weithwyr parhaol ar gyfer cyfleuster craidd y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd: -

- 100-150 o bobl o dîm y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd
- 50-60 o bobl ar gyfer y gwesty ar y safle
- 30-50 o weithwyr parhaol sy'n ymwneud â gwaith ymchwil a datblygu, o gonsortiw m o brifysgolion sydd wedi addo lleoli staff yno.

Yn ogystal â staff craidd y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn y cyfleuster, gallai tenantiaid posibl y safle ddod â llawer o'u staff eu hunain i weithio yno. Gallai ddod yn safle cyflogaeth eithaf pwysig pe bai hyn i gyd yn digwydd – ond gallai gymryd peth amser i wireddu'r potensial hwn. Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd,

mae angen gweithio ar y rhaglen sgiliau gan sicrhau bod y safle hwn yn ddigon deniadol i ddenu sefydliadau iddo.

Ar hyn o bryd, mae GCRE Ltd yn gwneud peth gwaith cymunedol ar ffurf cyfres o sioeau teithiol mewn neuaddau cymunedol lleol. Mae'n rhoi gwybod i'r gymuned leol am ei gynlluniau ar gyfer y safle (Prif Gynllun Strategol) ac yn rhoi cyfle i gymunedau drafod sut y gallai hynny effeithio arnyn nhw, gan amlinellu'r cyfleoedd posibl iddynt hefyd.

Cwestiynau

Gofynnodd CD a fyddai GCRE Ltd yn gwneud unrhyw ymchwil i hydrogen a rheilffyrdd ysgafn, oherwydd gallai hynny fod yn berthnasol i'r canolbarth o ystyried yr ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo ynghylch adfer y rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth. Cadarnhaodd SJ fod tri phrif opsiwn yn cael eu hystyried gan y diwydiant rheilffyrdd:

1. Gwneud mwy o waith ar drydaneiddio gwifrau uwchben – opsiwn costus iawn nad yw'n gweithio i reilffyrdd lleol y canolbarth (dadansoddiad cost:budd heriol)
2. Batri – rhai rhinweddau, ond yn anodd
3. Hydrogen – un o'r prif opsiynau sy'n cael ei gefnogi ar gyfer datgarboneiddio rheilffyrdd, ond mae angen datblygiadau technolegol er mwyn gwneud yr opsiwn hwn yn fwy dibynadwy.

Byddai'r safle hwn yn cynnig cyfle i fireinio a sefydlu datblygiadau technolegol. At hynny, mae gan y safle lawer o botensial o safbwynt cynhyrchu hydrogen – mae'n lleoliad agored ac mae ganddo gryn dipyn o botensial ar gyfer ynni adnewyddadwy, sy'n lliniaru'r risg sy'n gysylltiedig â'r safle. Gyda'r heriau o ran cysylltu â'r grid a chynhyrchu ynni gwyrdd ar y safle, gallai hwn fod yn opsiwn deniadol i fuddsoddwyr posibl.

O ran rheilffyrdd ysgafn, mae trafodaethau'n cael eu cynnal â chwmni sydd wedi bod yn datblygu system reilffordd ysgafn – gan geisio dwyn perswâd ar y cwmni hwnnw i ddod â'r dechnoleg i safle'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd a'i ddefnyddio fel cyfleuster arddangos, y gellir ei ehangu wedyn. At hynny, byddai rheilffyrdd ysgafn yn ddefnyddiol i ardaloedd gwledig.

CAM GWEITHREDU: Bydd LGW yn rhoi manylion cyswllt i SJ fel y gall eu rhannu wedyn â'r unigolyn newydd a fydd yn gyfrifol am sgiliau ac arloesi ac a fydd yn dechrau ar ei swydd fis nesaf – gan ei bod yn bwysig iawn sicrhau bod gweithlu medrus ar gael i gefnogi'r cynllun hwn. At hynny, bydd LGW yn trefnu cyfarfod â'r unigolyn cyn gynted ag sy'n bosibl, ac yn rhannu gwybodaeth am unrhyw ddatblygiadau â'r Cyngh. JG-W a'r Cyngh. BD.

CAM GWEITHREDU: Bydd SJ yn cysylltu ag AC ynghylch colegau addysg bellach y canolbarth, er mwyn gweld beth y maent yn ei gynnig (e.e. hyfforddiant o ran sgiliau, prentisiaethau).

Mae GCRE Ltd wedi bod yn cydweithio'n agos â phrifysgolion Cymru. Mae consortiwm o brifysgolion y DU wedi gwneud ymchwil i faes rheilffyrdd, dan yr enw Rhwydwaith Arloesi ac Ymchwil Rheilffyrdd y DU (UK Rail Research and Innovation Network (UKRRIN)). Mae'r cwmni wedi bod yn gweithio gyda nhw i sicrhau bod Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe yn ymuno â'r consortiwm, y mae Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol De Cymru yn aelodau cyswllt ohono eisoes. Y gobaith yw y bydd pobl o brifysgolion y DU a phrifysgolion Cymru yn dod i weithio ar y safle hwn.

Mae'r ffaith y bydd nifer fawr o bobl yn dod i'r safle yn golygu bod mynediad i'r rhwydwaith trafnidiaeth strategol yn eithaf pwysig. O gofio hynny, gofynnodd AE a yw GCRE wedi cael trafodaethau ynghylch rhedeg trenau teithwyr ar yr hen reilffordd ar

gyfer glo. Cadarnhaodd SJ fod hwn yn destun cryn drafod ond bod agor y rheilffordd leol yn heriol gan nad yw'r Achos Busnes yn dal dŵr ar hyn o bryd oherwydd dwysedd poblogaeth y cwm. Fodd bynnag, pe bai'r safle hwn yn dod yn safle sy'n cyflogi 600 – 700 o bobl, byddai'n cynyddu'r dwysedd gan y byddai nifer sylweddol o bobl yn teithio i mewn ac allan o'r ardal bob dydd. Bryd hynny, byddai'r cwmni yn barod i weithio gyda Chastell-nedd Port Talbot ac eraill i bwysu am hyn.

Mae'r cwmni wedi comisiynu astudiaeth drafnidiaeth yn rhan o'i gynllun ymrwymadau ac mae'n gweithio ar yr astudiaeth honno ar hyn o bryd. At hynny, mae gan GCRE Ltd ddiddordeb mewn ystyried sut y gall gyfrannu at deithiau hamdden o amgylch y safle. Mae wedi nodi cyfres o lwybrau cyhoeddus y bydd yn rhaid iddo eu hailalinio i ganol y safle. Yn ogystal, byddai'n hoffi creu llwybrau cerdded/beicio trwy'r safle a'u cysylltu â'r llwybrau sy'n bodoli eisoes i'r gogledd o'r safle, gan greu llwybr beicio 12 cilomedr sy'n mynd o amgylch y safle cyfan.

4.2. Twristiaeth Canolbarth Cymru (MWT Cymru) – Val Hawkins, Prif Weithredwr

Rhoddodd Val Hawkins (VH) gyflwyniad ar MWT Cymru, a oedd yn tynnu sylw at y meysydd canlynol.

- Cymuned dwristiaeth, rhanddeiliaid a phartneriaid MWT Cymru
- Pwysigrwydd twristiaeth i hybu datblygu economaidd
- Gweithgareddau craidd MWT Cymru a'i arbenigwyr ar dwristiaeth
- Denu ymwelwyr (e.e. cyhoeddiadau, canolfan gyfryngau'r canolbarth, sianelau ar gyfryngau cymdeithasol, gwefan ac ati)
- Ystadegau mewnol am y wefan, gan gynnwys tudalennau mwyaf poblogaidd y wefan
- Cynorthwyo cymunedau lleol (mae'n gallu denu sylw sylweddol o ran cysylltiadau cyhoeddus a sylw yn y cyfryngau, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol)
- Yr heriau y mae'r diwydiant twristiaeth yn eu hwynebu (e.e. prinder sgiliau, yr argyfwng costau byw, tueddiadau o ran gwyliau gartref, prinder mewn cadwyni cyflenwi, ac ati)
- Meithrin cydweithrediad a beth y gallent ei gyflawni

Cenhadaeth MWT yw dangos y canolbarth fel cyrchfan y mae'n rhaid ymweld â hi, a thrwy gydweithio mae modd creu profiadau cofiadwy i ymwelwyr, sy'n cyfrannu at dwf a ffyniant y rhanbarth. Mae cael sector twristiaeth iach yn y rhanbarth yn gosod y sylfeini ar gyfer mewnfuddsoddi – os yw'n lle gwych i ymweld ag ef, bydd yn lle da i fyw a gweithio ynddo.

Nid yw MWT yn cael cyllid cyhoeddus i gefnogi ei weithgareddau o ddydd i ddydd, felly ni allwn ond dychmygu beth y gallai ei gyflawni gydag ychydig yn rhagor o gymorth. Un awdurdod lleol yn rhanbarth y canolbarth sy'n cefnogi MWT, sef Gwynedd.

Cwestiynau

Gofynnodd BD beth oedd diben cael awdurdodau lleol yn aelodau o MWT. Dywedodd VH fod awdurdodau lleol a rhai o'r sefydliadau cenedlaethol (RSPB Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru) yn perthyn i'r categori aelodau corfforaethol. Mae aelodau yn y categori hwnnw'n helpu gyda rhywfaint o'r gwaith y mae MWT yn ei wneud ar gyrchfannau, gyda chymorth y sefydliadau hyn sy'n fwy o faint yn ogystal â rhai o'r busnesau unigol sy'n llai o faint. Mae hefyd yn golygu eu bod yn gallu cydweithio ychydig yn well.

	<p>CAM GWEITHREDU: Mae'r Cyngh. BD a'r Cyngh. JG-W yn hapus i gael sgwrs â VH ynghylch y pwynt uchod a'r pwynt isod.</p> <p>Dywedodd CM fod y wybodaeth lai moel gan MWT wedi bod yn amhrisiadwy, oherwydd eu bod yn gallu gweld beth sy'n digwydd mewn gwirionedd i fusnesau ar lawr gwlad yn y rhanbarth. Mae hynny'n gysylltiedig â'r Astudiaeth Dwristiaeth ranbarthol a gynhaliwyd ganddynt yn ystod ail hanner y llynedd – roedd MWT yn rhan o'r grŵp llywio hwnnw. Mae trafodaethau wedi bod ar y gweill yn fewnol â swyddogion yr awdurdod lleol ynghylch y ffordd orau o ddarparu adnoddau ar gyfer y gwaith hwn yn y dyfodol. Maent yn cydnabod bod angen defnyddio'r adnoddau gwych sydd ganddynt yn y canolbarth a chydweithio'n agosach â'i gilydd – gan wneud defnydd gwell o'r arian a'r adnoddau sydd ar gael.</p> <p>Dywedodd y Cyngh. JC y byddai'n hoffi gweld twristiaeth werdd yn cael ei hymestyn/sefydlu i raddau ychydig yn fwy ar draws y canolbarth – ac roedd yn awyddus i wybod beth arall y gallai MWT ei wneud i gefnogi a datblygu twristiaeth werdd, gan fod hynny'n dod â gweithgarwch a swyddi eraill. Fodd bynnag, bydd yn anodd mynd i'r afael â thrafnidiaeth a datblygu strategaeth twristiaeth werdd ar gyfer hynny, fel nad oes yn rhaid i bobl ddod â'u ceir i'r canolbarth – dyna'r unig ddewis ar hyn o bryd oni bai eu bod yn gerddwyr/beicwyr brwd. Gofynnodd y Cyngh. JC i ba raddau y gallai MWT ddylanwadu ar hynny a'i ddatblygu, ochr yn ochr â'r grŵp hwn. Cadarnhaodd VH fod MWT wedi gwneud cryn dipyn o waith dros y blynyddoedd i geisio cydlynu gwybodaeth ynghylch trafndiaeth/twristiaeth fwy gwyrdd yn y canolbarth – e.e. tynnodd sylw at y ddau lwybr cenedlaethol yn y canolbarth, llwybrau'r arfordir, a Rheilffordd Calon Cymru a Rheilffordd y Cambrian sy'n cynnig golygfeydd gwych. Roedd wedi lansio ap llwybrau Cymru gan greu canolfannau lle mae gwahanol ddulliau teithio yn dod ynghyd – sy'n ei gwneud yn haws i ymwelwyr feddwl am ddiwrnodau allan a'u cynllunio, nad ydynt yn golygu defnyddio'r car. Dywedodd y Cyngh. JC y byddai modd iddynt wneud ychydig yn fwy ar hyn, gan lobïo efallai a meddwl am syniadau arloesol (e.e. pasys bysiau).</p> <p>Soniodd y Cyngh. KH am bwysigrwydd teithio llesol i iechyd ac i iechyd meddwl ac o safbwynt dod ag incwm i'r rhanbarth. Mae angen lobïo'r llywodraeth i wella hynny ac ehangu'r ardaloedd sydd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau teithio llesol yn y sir – e.e. yng Ngheredigion dim ond Llanbedr Pont Steffan, Aberystwyth ac Aberteifi sydd wedi'u cynnwys fel y prif ganolfannau.</p>
<p>5.</p>	<p>Diweddariadau ynghylch Busnes</p> <p>5.1. Adroddiad y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol/Adolygiad o'r Dirwedd</p> <p>Cafodd y cyflwyniad ar yr Adolygiad o'r Dirwedd ei rannu â'r cyfarfod a thynnodd CM sylw at y meysydd canlynol.</p> <p>Bargen Twf Canolbarth Cymru</p> <p>Ym mis Chwefror 2023, cafwyd Adolygiad Sicrwydd Portffolio cadarnhaol iawn gan y tîm adolygu allanol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn yr Adolygiad Sicrwydd Portffolio, rhoddwyd y Fargen Twf yn y categori OREN/GWYRDD.</p> <p>Cafodd Achos Busnes Strategol y Portffolio a'r dogfennau ategol eu cymeradwyo gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru a'u cyflwyno i'r Llywodraeth (Mawrth 2023).</p> <p>Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn aros am ganlyniad Adolygiad y Llywodraeth a'r Llythyr Dyfarnu Grant, y mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi yn ystod yr haf (Mehefin 2023) gyda chyllid yn dod i'r Rhanbarth wedi hynny – a fydd yn garreg filltir allweddol arall o safbwynt cyflawni'r Fargen Twf.</p> <p>Y camau nesaf – mae llawer o waith i'w wneud eleni wrth i weithgarwch ddatblygu/cynyddu. Mae'r tîm yn gweithio ar y Strategaeth ar gyfer Buddsoddi gan y</p>

Sector Preifat, a dros yr ychydig fisoedd nesaf bydd yn datblygu Achos Busnes y Prosiectau a'r Rhaglenni ymhellach ac yn adolygu'r Portffolio. Bydd yn cael gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg o broses ddatblygu'r Achos Busnes, sy'n cyd-fynd â'r model busnes pum achos. Felly, bydd cael ychydig yn fwy o eglurder ynghylch y prosiectau'n golygu bod modd datblygu Achos Masnachol y Portffolio yn gyffredinol a chaniatáu i'r prosiectau symud yn eu blaen.

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru

Cynhaliwyd digwyddiad gwanwyn y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yng Ngwesty'r Metropole yn Llandrindod ar 23 Mawrth – lle cafodd Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd (2022-2025) a Chynllun Gweithredu'r Bartneriaeth eu lansio'n swyddogol. Daeth nifer dda o bobl i'r digwyddiad ac roedd yn gyfle i fusnesau'r rhanbarth rwydweithio ac archwilio'r cyfleoedd a oedd yn cael eu hybu gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae gweithgareddau'n cynyddu ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd. Gan adeiladu ar ddiwyddiad y gwanwyn, bydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cynnal cyfarfod cyntaf y grŵp clwstwr ar gyfer busnesau yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ar 15 Mai. At hynny, bydd y Bartneriaeth yn cynnal gweithdy ynghylch y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ar 19 Mai yng Ngwesty'r Metropole yn Llandrindod. Nod y gweithdy yw hybu a llenwi rhai o'r bylchau o ran sgiliau (e.e. sgiliau o ran technoleg werdd, ac ati). Yna, ddechrau mis Mehefin, cynhelir cyfarfod cyntaf grŵp clwstwr y Warant i Bobl Ifanc.

CAM GWEITHREDU: Dylai unrhyw un sy'n dymuno mynychu'r gweithdai ar 15 ac 19 Mai roi gwybod i LGW/CM er mwyn iddynt allu anfon gwahoddiadau allan.

Ar hyn o bryd mae dau ddeg a dau o fusnesau'n bwriadu mynychu cyfarfod cyntaf grŵp clwstwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer busnesau. Dyma'r cyfarfod cyntaf yn y gyfres o gyfarfodydd grwpiau clwstwr ar gyfer busnesau, y mae'r Bartneriaeth yn eu cynnal bob yn ail fis ar draws y rhanbarth.

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Mae'r amserlenni cyflawni ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn dal i newid. Bydd cyfarfodydd partneriaethau lleol yn cael eu cynnal yr wythnos hon a'r wythnos nesaf er mwyn asesu beth sydd wedi dod trwy'r rownd gyntaf o alwadau a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Ceredigion a Phowys. Felly, dylai fod modd iddynt roi diweddariad i bawb yn fuan ynghylch beth sydd wedi'i gymeradwyo/wedi llwyddo dan y galwadau cyllido cyntaf.

Cafwyd peth eglurder ynghylch 'Lluosi' gan Lywodraeth y DU. Mae'r adroddiad monitro diwedd blwyddyn wedi'i gyflwyno i Lywodraeth y DU, a gwnaed cais i drosglwyddo'r holl danwariant o flwyddyn un (22/23) i flwyddyn dau. Mae'r tîm yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r tanwariant, ar sail y galw gan brosiectau posibl. Mae'r tîm hefyd wedi dechrau ystyried ei ofynion o ran prisio ar gyfer y rhaglen. Mae'n ddyddiau cynnar o hyd, felly ar hyn o bryd mae'r ceisiadau yn cael eu hasesu a'u hystyried gan y naill bartneriaeth leol a'r llall.

Mae'r wybodaeth am y prosiectau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ar gael ar wefannau'r ddau awdurdod lleol, a bydd y wybodaeth honno'n cael ei diweddarw wrth i fwy o brosiectau gael eu cymeradwyo.

Diweddariad ynghylch Ymgysylltu Rhanbarthol

Darparodd CM ddiweddariad ynghylch gweithgarwch diweddar a chmau nesaf y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol.

Yn bennaf, mae'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn gweithio ar fapio gweithgarwch a gwaith cyflawni sy'n mynd rhagddo yn y rhanbarth. O ran gweithgarwch a ariennir gan

yr UE, mae'r tîm yn edrych ar beth sy'n dod i ben, beth sy'n cael ei drosglwyddo i ffynonellau cyllid eraill a beth nad yw'n cael ei drosglwyddo. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei bwydo i rannau eraill o Tyfu Canolbarth Cymru a'i rhannu â rhanddeiliaid. Mae'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol hefyd wedi bod yn adolygu'r ddogfen weledigaeth ac mae'n gobeithio rhannu'r ddogfen honno yng nghyfarfod nesaf y Bartneriaeth.

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, bydd y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn cydweithio'n agos â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Blaenoriaeth arall i'r tîm dros yr ychydig fisoedd nesaf fydd hybu cau prosiectau'n brydlon/effeithiol. Mae hynny'n bwysig iawn gan mai hon fydd rownd olaf y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, felly mae yna derfyn amser caeth iawn ar gyfer hawlio arian a chau prosiectau.

CAM GWEITHREDU: Os oes gan unrhyw un ymholiadau ynghylch y terfyn amser ar gyfer cau prosiectau sy'n cael eu hariannu trwy'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, rhowch wybod i CM.

Mae'r dirwedd sydd ohoni o ran cyllid yn golygu bod yna fwy o brosiectau nag sydd yna o gyllid ar hyn o bryd. Nid yw hynny'n golygu bod yr holl brosiectau yn bodloni'r anghenion/galwadau a nodwyd yn y rhanbarth. Mae'r sefyllfa yn newid o hyd ac mae llawer o ffactorau i'w hystyried – ond mae prosiectau'n dechrau dod trwy lwybr Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, sydd â mwy o alwadau cyllido i ddod.

Ceir rhai bylchau cyflawni strategol o hyd mewn rhai meysydd, yn enwedig yng nghyswllt y maes digidol a datgarboneiddio. Mae rhai prosiectau cymunedol yn dod i'r amlwg sy'n cyd-fynd yn dda iawn â'u nodau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn y meysydd hyn, ond ceir nifer eithaf sylweddol o fylchau mewn gweithgarwch o hyd. Bwlch allweddol arall sy'n dod i'r amlwg yw cyflogadwyedd graddedigion medrus – maent yn gwneud gwaith gwych o ran gwella sgiliau pobl ifanc yn y rhanbarth, ond maent yn cael trafferth eu cadw. Erbyn hyn, maent yn gweld bwlch mewn cynlluniau sy'n cynnig lleoliadau gwaith/sgiliau cyflogadwyedd i raddedigion.

Gwelwyd cryn dipyn o newidiadau o ran polisi ym maes arloesi dros yr ychydig fisoedd diwethaf a chodwyd llawer o gwestiynau ynghylch ffynonellau cyllid ar gyfer gweithgarwch tebyg i waith ymchwil yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, ceir risg y bydd rhai prosiectau pwysig o safbwynt strategol a chenedlaethol, a ariannwyd dan y rhaglenni a gyllidwyd yn flaenorol, yn gorfod dod i ben neu'n cael eu cwtogi'n sylweddol o ganlyniad i'r sensitifrwydd hwn. Mae polisi arloesi Llywodraeth Cymru wedi symud yn ei flaen ers y cyfarfod diwethaf, gydag Ymchwil ac Arloesi y DU a Llywodraeth Cymru yn llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i gydweithio â'i gilydd. Mae'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn gobeithio cael mwy o drafodaeth â Llywodraeth Cymru ac Ymchwil ac Arloesi y DU ynghylch sut y bydd hynny'n gweithio yn ymarferol wrth symud ymlaen.

Mae'r datblygiadau allweddol canlynol o ran polisi wedi digwydd yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ers cyfarfod diwethaf Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru: -

- Datganiad Sefyllfa ynghylch Canol Trefi
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ynghylch Arloesi
- Fframwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg Llywodraeth y DU
- Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net
- Cynllun Gweithgynhyrchu i Gymru

CAM GWEITHREDU: Os oes unrhyw un am drafod ymhellach y datblygiadau o ran polisi a grybwyllir uchod, rhowch wybod i CM.

Gan fod rhaglen gyllido Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn dod i ben, mae'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn dechrau adolygu beth y mae'r cyllid wedi'i gyflawni yn y canolbarth. Roedd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi darparu diweddariad ynghylch beth yr oedd y canolbarth wedi'i gyflawni fel rhanbarth ers dechrau'r rhaglen

yn 2014 – 16,000 o bartneriaid wedi cael cymorth trwy gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop, 650 o fusnesau newydd a 3,000 o swyddi wedi'u creu. Bydd y niferoedd hyn yn codi wrth i allbynnau rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd gynyddu.

Cwestiynau

Gofynnodd y Cyngh. JC a oedd unrhyw wybodaeth neu ddiweddariad ar gael ynghylch cynullïadau dinasyddion a threfniadau cydweithio. Cadarnhaodd CM fod Llywodraeth Cymru yn ystyried cam nesaf y strategaeth arloesi – sut y mae'n bwriadu ei chyflawni mewn gwirionedd. Mae disgwyl iddi adrodd yn ôl yn fuan ynghylch sut y bydd hynny'n gweithio yn ymarferol – efallai y dylid ystyried gwahodd y Llywodraeth i un o gyfarfodydd y bartneriaeth yn y dyfodol er mwyn ei helpu gyda hyn. Yn gynyddol mae cyllid Ymchwil ac Arloesi y DU wedi darparu cyfleoedd i awdurdodau lleol arwain ceisiadau am gyllid, gan ofyn i awdurdodau lleol/consortia rhanbarthol gamu i'r adwy ac arwain ar weithgarwch arloesi. Byddai'n ddefnyddiol cael diweddariad mwy manwl ynghylch hynny mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Gofynnodd BJ a oedd proses galwad agored Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cynnig tystiolaeth o'r bylchau yn y maes digidol ac ym maes datgarboneiddio, a grybwyllwyd yn gynharach. Cadarnhaodd CM eu bod wedi gweld prosiectau'n dod i'r amlwg yn y meysydd hyn yn y cyfnodau cynnar – eu bod yn brosiectau lleol/cymunedol ac wedi'u halinio'n strategol ond nad ydynt yn cynnwys pob rhan o Bowys/Ceredigion. Er bod y tîm wedi nodi angen penodol am y prosiectau lleol hyn, mae angen iddo ystyried y darlun strategol ehangach hefyd – mae sgysiau yn parhau ynghylch y bwlch hwn a nodwyd.

CAM GWEITHREDU: Bydd CM yn rhannu â BJ y ddogfen fapio sy'n amlinellu'r bylchau strategol y mae'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol wedi'u nodi.

5.2. Y Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith

Roedd Ann Elias wedi darparu adroddiad ysgrifenedig ar faterion trafndiaeth strategol sy'n effeithio ar y rhanbarth ac ar waith y Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith.

Mae gwaith wedi'i atal ar yr Adolygiad Ffyrdd ar hyn o bryd er mwyn i Lywodraeth Cymru/Y Panel Adolygu Ffyrdd allu ailystyried rhai o'r prosiectau ffyrdd amlycaf sy'n dod i'r amlwg i helpu'r canolbarth i ddatgloi ei goridorau strategol a gwella lliw cerbydau cludo nwyddau'n benodol. Y gobaith yw y bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau cynllun logisteg cludo nwyddau y gall AE gyfrannu iddo a lle gall amlygu rhai o'r problemau sy'n ymwneud â symud nwyddau ar hyd coridorau'r canolbarth. Mae AE yn gwybod am rai cynlluniau a fydd yn mynd yn eu blaen: -

- cyffordd yr A489/A470 yng Nghaersŵs;
- ar yr A487 yng Nghomins-coch ar gyrion Aberystwyth;
- ar yr A487 rhwng Machynlleth a Dolgellau; ac
- ar yr A40 i'r dwyrain o Aberhonddu.

Mae AE yn dal i aros am fwy o fanylion gan Lywodraeth Cymru (Tom Crow) ynghylch beth yn union fydd natur y cynlluniau hyn sydd wedi'u haddasu.

Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafndiaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod y cynllun trawsffiniol yn y canolbarth wedi'i gymeradwyo. Mae prosiect yr A483 Pant i Lanymynech yn datgan y dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gydweithio er mwyn nodi ffurf bosibl y prosiect hwn wrth symud ymlaen. Ceir pryder nad yw Adran Drafndiaeth Llywodraeth y DU wrthi'n adolygu blaenraglen y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ac yn ei symud ymlaen i'r Strategaeth Buddsoddi mewn Ffyrdd. Mae AE yn gweithio gyda phartneriaeth y Gororau er mwyn gweld a all y rhaglen hon barhau i symud yn ei blaen.

6. Diweddariadau gan y Llywodraethau

6.1 Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

Darparodd Peter James (PJ) ddiweddariad llafar.

Ym mis Chwefror, lansiyd strategaeth arloesi Llywodraeth Cymru, sy'n defnyddio dull gweithredu trawslywodraethol i egluro sut y gallai arloesi gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglenni ar draws ystod o Bortffolios. Mae pedair thema i'r strategaeth: -

- Addysg
- Yr economi
- Iechyd a llesiant
- Yr hinsawdd a natur.

Roedd y strategaeth drwyddi draw yn rhoi pwyslais hefyd ar gydraddoldeb, cynhwysiant a diwylliant ar gyfer arloesi a chydweithio. Mae cydweithwyr wrthi'n datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth hon – gan adolygu sut y gellir symud y themâu allweddol yn eu blaen a chyflawni ar sail dyheadau strategol y strategaeth.

Ar 2 Mai cyhoeddodd Gweinidog yr Economi Gynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu i Gymru sydd ar ei newydd wedd. Nod y cynllun hwn yw sicrhau bod Cymru yn barod i groesawu'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, a chynorthwyo'r sectorau gyda'r newidiadau mewn prisiau ynni, prinder gweithwyr, ac anawsterau gyda chadwyni cyflenwi.

Mae Enterprise Cymru wedi ennill y contract ar gyfer Busnes Cymru (2023 – 2029) sy'n cynorthwyo entrepreneuriaid busnes mewn busnesau newydd ac yn darparu cymorth ar ffurf cyngor, a sefydlwyd gan Busnes Cymru. Bydd Enterprise Cymru yn cydweithio â'r darparwr arweiniol (Business in Focus) ac is-gontractwyr. Mae gwaith cynllunio cychwynnol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda'r bwriad o ddechrau darparu gwasanaeth o 1 Mehefin ymlaen. Nid ydynt yn disgwyl unrhyw fwch yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau, felly dylai cleientiaid barhau i gael gwybodaeth, cymorth busnes a chyngor, a'r gobaidh yw y bydd hynny'n eu hannog i dyfu eu busnesau yn y canolbarth.

Mae'r swyddfa ranbarthol wedi bod yn cefnogi Bargen Twf Canolbarth Cymru. Mae'r staff yno yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio a Llywodraeth y DU i ryddhau cyfran gyntaf cyllid y Fargen Twf, ar ôl cyflwyno Achos Busnes y Portffolio ddiwedd mis Mawrth. Maent yn gweithio trwy sawl cam/proses fewnol ac yn cysylltu â sawl tîm mewnol er mwyn rhyddhau cyllid y Fargen Twf.

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddwyd Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar draws Cymru. Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi gwedd newydd i'r fframwaith hwn er mwyn gweld sut y gellir ei roi ar waith. Bydd y Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda'r ddau awdurdod lleol i wneud hynny ac yn sicrhau ei fod yn alinio â'r gwaith cynllunio rhanbarthol strategol sydd yn y weledigaeth newydd ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru.

6.2 Diweddariad gan Lywodraeth y DU

Darparodd Brett John (BJ) ddiweddariad llafar.

Croesawodd BJ y dirprwy arweinydd ardal newydd – Nash Manounah (NM).

Ers y cyfarfod diwethaf, mae Llywodraeth y DU wedi gallu darparu mwy o eglurder ynghylch y gwariant Lluosi ym mlwyddyn un a sut y gellir trosglwyddo hwnnw i flwyddyn dau. Gobeithir y bydd hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd i'r awdurdodau lleol ddefnyddio unrhyw danwariant.

	<p>Mae trafodaethau'n parhau ynghylch trydedd rownd y Gronfa Ffyniant Bro. Mae BJ yn ymwybodol bod y ddau awdurdod lleol (Ceredigion a Phowys) yn aflwyddiannus yn yr ail rownd, a byddai Llywodraeth y DU wedi darparu adborth ynghylch hynny. Bydd Llywodraeth y DU yn cadw mewn cysylltiad â'r ddau awdurdod lleol ynghylch sut y gallai trydedd rownd y Gronfa weithio yn y rhanbarth, wrth i fwy o fanylion ddod i'r amlwg.</p> <p>Bydd mwy o rowndiau i ddod yn rhan o'r gronfa perchnogaeth gymunedol – mae Llywodraeth y DU yn awyddus i ymgysylltu er mwyn sicrhau bod mwy o grwpiau cymunedol/gwirfoddol yn gwybod am y cyfle hwn.</p> <p>Mae Llywodraeth y DU yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ar barthau buddsoddi, er mwyn gweld ffurf bosibl y rhain yng Nghymru. Wrth i'r drafodaeth hon ddatblygu, gobeithir y bydd Llywodraeth y DU mewn sefyllfa i ymgysylltu ymhellach ag awdurdodau lleol ynghylch y posibilrwydd hwn.</p>
<p>7.</p>	<p>Unrhyw fater arall</p> <p>Nid oedd unrhyw fater arall.</p>
<p>8.</p>	<p>Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dydd Llun, 18 Medi • Dydd Llun, 6 Tachwedd

